# Cyfrifiad 2021

## Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig a Roma Papur Pwnc

Gorffennaf 2024

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Caru·Love
Ceredigion

# CANLYNIADAU ALLWEDDOL

**57**

person yng Ngheredigion a nodwyd fel Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig



**29**

person yng Ngheredigion a nodwyd fel Roma

**-17**

person yng Ngheredigion a nodwyd fel Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig ers y Cyfrifiad yn 2011

**0.08%**

(86 person)

o boblogaeth Ceredigion a nodwyd fel nai llai Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig neu Roma

## Poblogaeth iau na'r cyfartaledd

50.0% (27) o’r boblogaeth **Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig o dan 35** (i gymharu â 38.7%). 45.2% (14) o’r boblogaeth **Roma o dan 25** (i gymharu â 28.8%)



**0.0%**

o’r boblogaeth Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig a Roma yn byw mewn **carafán neu strwythur symudol neu dros dro arall**

Cynhyrchwyd gan: Tîm Ymchwil a Pherfformiad
performanceresearch@ceredigion.gov.uk

# Tabl Cynnwys


1.0. Cefndir ........ 3

2.0. Cymru ........ 4

3.0. Ceredigion ........ 6

- 3.1. Oedran & Rhyw ........ 6
- 3.2. Iechyd ........ 8
- 3.3. Anabledd ........ 9
- 3.4. Daliadaeth Tai ........ 11
- 3.5. Math o Lety ........ 12
- 3.6. Aelwydydd Gorlawn ........ 14
- 3.7. Gweithgaredd Economaidd ........ 15
- 3.8. Cymwysterau ........ 16

4.0. Casgliad ........ 17

Rhestr Ffigurau: ........ 18

Rhestr Cyfeirnodau: ........ 18

# 1.0. Cefndir

Mae holiadur y Cyfrifiad yn holi unigolion am eu grŵp ethnig, a chynigir dewisiadau lluosog. Bydd yr adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar y rhai a nododd mai eu hunaniaeth yw Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, neu Gwyn: Roma, yng Nghymru ac yng Ngheredigion.

Cyn Cyfrifiad 2011, cadarnhawyd bod y rhai o gefndir Sipsi neu Deithiwr yn aml yn dioddef canlyniadau gwael, felly roedd angen casglu gwybodaeth am nodweddion y grŵp hwn. Am y tro cyntaf yn 2011, roedd y Cyfrifiad yn cynnwys dewis penodol ar gyfer Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, ac am y tro cyntaf yn 2021, roedd y Cyfrifiad hefyd yn cynnwys dewis i nodi Roma.

Mae llunwyr polisi ac ymchwilwyr wedi defnyddio'r term Sipsi, Roma a Theithiwr i ddisgrifio amrediad o grwpiau ethnig neu'r rhai sydd â ffordd o fyw nomadig nad ydynt yn perthyn i ethnigrwydd penodol. Yng Nghymru, mae'n gyffredin gwahaniaethu rhwng:

- Sipsiwn (gan gynnwys Sipsiwn Seisnig, Sipsiwn neu Deithwyr Albanaidd, Sipsiwn Cymreig a Sipsiwn Romani)
- Teithwyr Gwyddelig (sydd â gwreiddiau Gwyddelig penodol)
- Roma, y deallir eu bod yn fudwyr mwy diweddar o Ganol a Dwyrain Ewrop.
- Ar gyfandir Ewrop, fodd bynnag, caiff pob grŵp sydd â hanes nomadig eu categoreiddio fel "Roma", sy'n derm llawer ehangach ac er ei fod yn cynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, nid yw'n cynrychioli'r ffordd y byddai'r rhan fwyaf o gymunedau Prydeinig yn nodi eu hunaniaeth.

Yn ogystal, gall y term Teithiwr gynnwys grwpiau sy'n teithio hefyd. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r canlynol: Teithwyr Newydd, Cychwyr a phobl Sioe.

Caiff Sipsiwn a rhai Teithwyr eu cydnabod gan y gyfraith fel rhai sy'n perthyn i grwpiau ethnig sy'n cael eu diogelu rhag gwahaniaethu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Caiff Roma mudol eu diogelu gan eu hethnigrwydd a'u hunaniaeth genedlaethol. Ni chaiff grwpiau eraill, fel Teithwyr Newydd, eu cydnabod dan y Ddeddf ac fe'u hystyrir yn grwpiau diwylliannol.

Dylid nodi bod poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr a Roma yn aml yn cael eu tangynrychioli yng Nghymru. Mae hyn oherwydd lefelau ymgysylltu isel, sydd o ganlyniad i amrywiaeth o resymau. Gellir cysylltu hyn gydag amharodrwydd cymunedau Sipsiwn neu Deithwyr a Roma i ddatgelu eu hethnigrwydd oherwydd eu bod yn ofni gwahaniaethu. Mae ffactorau eraill sy'n cyfrannu at dangynrychiolaeth yn cynnwys:

- Llythrennedd gyfyngedig a/sgiliau digidol sy'n golygu na allant gymryd rhan yn y Cyfrifiad heb gael cymorth.
- Drwgdybiaeth gyffredinol o wasanaethau cyhoeddus / llywodraethu.
- Diffyg gwybodaeth am bwysigrwydd y Cyfrifiad.


# 2.0. Cymru

## Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig

Yn ôl Cyfrifiad 2021, yng Nghymru, nododd 3,550 o bobl eu bod yn uniaethu fel Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, ac mae hyn yn cyfateb â 0.1% yn unig o gyfanswm poblogaeth Cymru. Ers Cyfrifiad 2011, mae hwn yn gynnydd o 765 o bobl sy'n uniaethu fel Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig.

Mae'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yng Nghymru yn gymharol fach a'r duedd yw eu gweld yn Ne a De-Orllewin Cymru yn bennaf (Ffigwr 1). Er bod Sir Caerdydd yn cynnwys nifer uchaf y bobl sy'n uniaethu fel Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig (673 o bobl), roedd canran uchaf o boblogaeth Sir Benfro yn uniaethu fel Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig (0.5%/575 o bobl). Mae hyn yn gynnydd er Cyfrifiad 2011, pan oedd tua 0.4% o boblogaeth Sir Benfro yn uniaethu fel Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig (454 o bobl). Lleolir yr awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n cynnwys canran isaf y Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn eu poblogaeth (0.0%) yn y De, gan gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Fynwy, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg. Roedd Sir Fynwy yn cynnwys nifer isaf y bobl a oedd yn uniaethu fel Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig (36 o bobl).

Ffigur 1: Map o'r canran o bobl yn uniaethu fel Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig yn ôl Awdurdod Lleol.




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[1]


[1] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. TS021 – Grŵp Ethnig. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2041&geog=lacu2021

Gellir priodoli patrymau dosbarthiad cymunedau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig i amrywiaeth o ffactorau.  Mae gan nifer o gymunedau gysylltiadau hanesyddol ag ardaloedd penodol o ganlyniad i lwybrau teithio traddodiadol;  mae ardaloedd eraill yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth gwell (er enghraifft, awdurdodau lleol sy'n cynnwys marchnadoedd gwaith llaw neu amaethyddol);  ac mae rhai awdurdodau wedi sefydlu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig neu mae ganddynt dai sy'n cael eu neilltuo i Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn benodol (e.e., Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Caerdydd, Casnewydd ac ati), a allai gyfrannu at boblogaethau uwch yn yr ardaloedd hyn.

## Roma

Yng Nghymru, roedd 1,843 o bobl yn uniaethu fel Roma, yn ôl Cyfrifiad 2021, sy'n cyfateb â 0.1% o gyfanswm y boblogaeth yng Nghymru.  Mae'r boblogaeth Roma yng Nghymru yn gymharol fach ac i'w gweld mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol yn Ne Cymru yn bennaf (Ffigwr 2).  Mae Casnewydd yn cynnwys canran uchaf ei phoblogaeth sy'n uniaethu fel Roma  (0.3%/306 o bobl), ac mae Caerdydd yn cynnwys nifer uchaf y bobl sy'n uniaethu fel Roma (593 o bobl).  Yr awdurdod lleol sy'n cynnwys nifer isaf y bobl sy'n uniaethu fel Roma yw Blaenau Gwent (14 o bobl).

Ffigur 2: Map o'r canran o bobl yn uniaethu fel Roma yn ôl Awdurdod Lleol.




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[2]

[2] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. TS021 – Grŵp Ethnig. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2041&geog=lacu2021

## 3.0. Ceredigion

Mae'r adran hon yn ystyried y data demograffig allweddol o Gyfrifiad 2021 ynghylch canlyniadau a phrofiadau'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma yng Ngheredigion, o'i gymharu â chanlyniadau a phrofiadau yr holl grwpiau ethnig (y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn fel 'poblogaeth gyffredinol Ceredigion').

### Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd tua 57 o bobl yng Ngheredigion yn uniaethu fel Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig. Dim ond 0.1% o gyfanswm poblogaeth Ceredigion yw'r nifer hon, ac mae yr un fath â'r cyfartaledd yng Nghymru. Roedd Ceredigion yn cynnwys 6ed nifer isaf y bobl a oedd yn uniaethu fel Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Nghymru, yr un faint ag a welwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr (57).

Ers y Cyfrifiad blaenorol yn 2011, mae nifer y bobl sy'n uniaethu fel Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig wedi gostwng 17 (o 74), er bod canran y boblogaeth sy'n perthyn i'r grŵp hwn wedi aros yr un fath (0.1%).

### Roma

Roedd tua 29 o bobl yng Ngheredigion wedi uniaethu fel Roma, sy'n cyfateb â 0.0% o gyfanswm poblogaeth Ceredigion, ac mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 0.1%. Ar draws Cymru, roedd Ceredigion yn cynnwys 7fed rhif isaf y bobl a oedd yn uniaethu fel Roma.

## 3.1. Oedran & Rhyw

Mae astudiaethau ynghylch y boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma yng Nghymru yn awgrymu bod pyramid poblogaeth y grwpiau poblogaeth hyn yn dangos nodweddion tebyg i wlad ddatblygol. Mae'r nodweddion yn cynrychioli cyfraddau genedigaethau uchel a disgwyliad oes isel. Mae'r data isod (Ffigwr 3) yn dangos i ni bod hyn yn wir yng Ngheredigion, lle y mae gennym boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma sy'n iau na'r oedran cyfartalog, a chanran is na'r ganran gyfartalog o bobl sy'n 65 oed ac yn hŷn yn y grwpiau poblogaeth hyn. Yn ogystal â chyfraddau genedigaethau uwch a disgwyliad oes is na'r disgwyliad oes cyfartalog, gallai'r proffil demograffig unigryw hwn fod yn cael ei yrru gan ffactorau economaidd-gymdeithasol a diwylliannol, megis patrymau mudo gwahanol grwpiau oedran, gyda'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn iau.[3] [4]

### Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig

O blith cyfanswm y boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Ngheredigion, roedd 53.6% (30) yn fenywaidd (o'i chymharu â 51.1% o boblogaeth Ceredigion) ac roedd 46.4% yn wrywaidd (o'i chymharu â 48.9% o boblogaeth Ceredigion). Roedd hanner (50.0%, 27) y boblogaeth Sipsiwn neu


[3] Garrett, J and Mitchell, M. (2021). Locked out: A snapshot of access to General Practice for nomadic communities during the COVID-19 pandemic. Ar gael yn: Locked-out-A-snapshot-of-access-to-General-Practice-for-nomadic-communities-during-the-COVID-19-pandemic.pdf (gypsy-traveller.org)

[4] Tŷ'r Cyffredin (2019). Sipsi a Teithwyr. Ar gael yn: Gypsies and Travellers - House of Commons Library (parliament.uk).

Deithwyr Gwyddelig yng Ngheredigion dan 35 oed (o'i chymharu â 38.7% o gyfanswm poblogaeth Ceredigion). Roedd ychydig yn llai nag un o bob tri (30.4%, 17) o'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Ngheredigion dros 50 oed (o'i chymharu â 47.1% o gyfanswm poblogaeth Ceredigion).

Mae Ffigwr 3 isod yn amlinellu strwythur rhyw ac oedran poblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig Ceredigion yn 2021.

Ffigur 3: Strwythur oedran a rhyw poblogaeth Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig Ceredigion (2021).




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[5]

## Roma


Yn debyg i'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Ngheredigion, mae'r boblogaeth Roma yn iau ac mae'n cynnwys cyfran ychydig yn uwch o fenywod o'i chymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

O blith cyfanswm y boblogaeth Roma yng Ngheredigion, roedd 54.8% (17) yn fenywod (o'i chymharu â 51.1% o boblogaeth Ceredigion) ac roedd 45.1% yn wrywod (o'i chymharu â 48.9% o boblogaeth Ceredigion). Roedd bron i hanner (45.2%, 14) y boblogaeth Roma yng Ngheredigion dan 25 oed (o'i chymharu â 28.8% o gyfanswm poblogaeth Ceredigion). Dim ond 5.9% (1) o'r boblogaeth Roma yng Ngheredigion oedd yn 65 oed ac yn hŷn (o'i chymharu â 25.7% o gyfanswm poblogaeth Ceredigion).

Mae Ffigwr 4 isod yn amlinellu strwythur rhyw ac oedran poblogaeth Roma a phoblogaeth Ceredigion yn ystod 2021.

[5] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. RM032 – Grŵp Ethnig yn ôl rhyw yn ôl oed. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2132&geog=lacu2021

Ffigur 4: Strwythur oedran a rhyw poblogaeth Roma Ceredigion (2021).




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[6]

## 3.2. Iechyd

Mae ymchwil yn dangos bod cymunedau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig neu Roma yn aml yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau iechyd.[7] Mae'r rheswm dros yr anghydraddoldebau hyn yn gymhleth, ond maent yn cynnwys y ffaith eu bod yn anweledig mewn setiau data prif ffrwd, sy'n golygu nas nodir anghenion y grŵp poblogaeth hwn mewn gwasanaethau, diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau, o ganlyniad i ofn wrth geisio help neu brofiadau o wahaniaethu, a diffyg sgiliau digidol a llythrennedd isel, sy'n arwain at y ffaith na all aelodau o'r gymuned fanteisio ar wasanaethau angenrheidiol.

### Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig & Roma


Adroddodd y boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a'r boblogaeth Roma am iechyd cyffredinol gwaeth o'i chymharu â'r boblogaeth gyffredinol yng Ngheredigion (gweler Ffigwr 5). Datgelodd Cyfrifiad 2021 bod 14.0% (8) o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig a 10.0% (3) o'r boblogaeth Roma yng Ngheredigion bod eu hiechyd yn 'wael' neu'n 'wael iawn', sy'n uwch na'r lefel a welir yn y boblogaeth gyffredinol (6.2%). Ar y llaw arall, adroddodd cyfran uwch o'r boblogaeth Roma yng Ngheredigion bod eu hiechyd yn 'dda iawn' (60.0%) o'i chymharu â'r boblogaeth gyffredinol (45.0%).

[6] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. RM032 – Grŵp Ethnig yn ôl rhyw yn ôl oed. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2132&geog=lacu2021

[7] Llywodraeth Cymru (2015). Teithio at Iechyd Gwell. Ar gael trwy droi at: travelling-to-better-health.pdf (gov.wales).

Fodd bynnag, mae canran uwch y nifer a adroddodd am iechyd gwaeth yn y grwpiau hyn (yn enwedig yn y gymuned Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig) yn destun pryder, yn enwedig gan ein bod yn gwybod bod y grwpiau hyn yn iau na phoblogaeth Ceredigion, ac felly, ni ellir cysylltu'r iechyd gwaeth a adroddwyd gyda henaint.

Ffigur 5: Iechyd cyffredinol hunan-gofnodedig poblogaeth Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Roma a Cheredigion (2021).




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[8]

## 3.3. Anabledd


Mae'r Cyfrifiad yn holi cyfranogwyr a yw eu gweithgareddau dydd-i-ddydd yn cael eu cyfyngu gan salwch neu gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, ac os mai 'ydynt, rhyw ychydig' neu 'ydynt, cryn dipyn' yw eu hateb i'r cwestiwn hwn, ystyrir bod cyfranogwyr yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hwn yn gwestiwn hunanasesu, a dylid ystyried hynny wrth ddadansoddi'r data. Mae data'r Cyfrifiad yn dweud wrthym bod iechyd y grwpiau poblogaeth hyn yn tueddu i fod yn waeth, ac fe allai hyn fod oherwydd anabledd, neu fe allai arwain at anabledd.

### Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig & Roma

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos bod y rhai o gefndir ethnig Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn fwy tebygol o fod yn anabl dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o'u cymharu â phoblogaeth anabl gyfartalog Ceredigion. Fel y dangosir yn Ffigwr 6 isod, ystyrir bod ychydig dan hanner (40.6%) y boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Ngheredigion yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ac mae hyn yn cymharu ag ychydig yn llai na chwarter (21.9%) cyfartaledd Ceredigion.

[8] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Iechyd Cyffredinol yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

Ffigur 6: Poblogaeth Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Roma a Ceredigion gydag anabledd (2021).




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[9]

Yn wahanol i'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, mae'r grŵp poblogaeth Roma yng Ngheredigion yn llai tebygol o fod yn anabl dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, o'i chymharu â chyfartaledd Ceredigion. Ystyrir bod ychydig yn llai nag un o bob pump (19.2%) o'r boblogaeth Roma yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb, o'i chymharu â 21.9% o boblogaeth Ceredigion.


Er bod asesiad cyffredinol y boblogaeth Roma o'u hiechyd yn waeth (fel yr adlewyrchir yn Ffigwr 5), mae gan gyfran is anabledd o'i chymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

[9] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Anabledd yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

## 3.4. Daliadaeth Tai


### Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig

Ffigur 7: Canran y boblogaeth Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig yn ôl Daliadaeth (2021)




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[11]

Ffigur 8: Canran o boblogaeth Ceredigion yn ôl Daliadaeth (2021)




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[10]

Mae rhan fwyaf y boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Ngheredigion yn rhentu rhywle yn breifat neu'n byw heb dalu rhent (33.9%).  Er bod y grŵp poblogaeth hwn yn lleiaf tebygol o rentu eu cartref yn y sector rhent cymdeithasol (16.1%), mae'r ganran hon, fodd bynnag, yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngheredigion (10.5%).

Mae Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn llai tebygol o fod yn berchen ar gartref o'i chymharu â'r cyfartaledd yng Ngheredigion (50% o Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig o'i chymharu â 68.9% o'r boblogaeth gyffredinol).  Gallai hyn fod oherwydd proffil oedran iau y boblogaeth hon ac felly, maent yn llai tebygol o fod wedi prynu cartref.  Mae Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig hefyd yn adnabyddus am eu ffordd o fyw nomadig, felly efallai y byddai prynu eiddo yn ddewis annymunol i rai.


---

[10] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Daliadaeth yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

[11] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Daliadaeth yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create


## Roma

Ffigur 9: Canran o boblogaeth Roma yn ôl Daliadaeth (2021).




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[12]

Ffigur 10: Canran o boblogaeth Ceredigion yn ôl Daliadaeth (2021).




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[13]

Mae dros hanner (60.9%) y boblogaeth Roma yng Ngheredigion yn rhentu rhywle yn breifat neu'n byw heb dalu rhent, ac mae ychydig dros chwarter yn berchen ar eu cartref (26.0%), ac mae 13.0% yn rhentu yn y sector cymdeithasol. Mae'r boblogaeth Roma yn llawer llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain o'i chymharu â'r cyfartaledd yng Ngheredigion (26.0% o'i chymharu â 68.9%). Unwaith eto, mae proffil oedran iau y boblogaeth hon yn golygu eu bod wedi cael llai o gyfle i ddringo ar yr ysgol eiddo, neu gallai eu nodweddion mudol olygu y byddai prynu cartref yn amhriodol iddynt.

# 3.5. Math o Lety

## Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig & Roma

Mae dros hanner (54.7%) y boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Ngheredigion yn byw mewn tŷ cyfan sengl neu fyngalo, dim ond 1.9% sy'n byw mewn fflat, fflat deulawr neu rhandy ac mae 0.0% yn byw mewn carafán neu strwythur symudol neu dros dro arall (Ffigwr 11). Mae'r dosbarthiad ar draws y math o lety ychydig yn fwy amrywiol ar gyfer y boblogaeth Roma, gyda rhaniad mwy penodol


---

[12] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Daliadaeth yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

[13] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Daliadaeth yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

ar draws y gwahanol fathau.  Mae mwyafrif bach o'r boblogaeth Roma yng Ngheredigion yn byw mewn tŷ sengl neu fyngalo (34.6%).  Dilynir hyn yn agos gan fflat, fflat deulawr neu rhandy, a thŷ teras cyfan neu fyngalo (y ddau yn 30.8%).

Ffigur 11: Canran o poblogaeth Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig a Roma yn ôl math o lety (2021).




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[14]

Mae cyfran isel y Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig sy'n byw mewn carafán yng Ngheredigion yn peri syndod o ystyried y ffaith y byddem fel arfer yn cysylltu ffyrdd o fyw y grwpiau hyn gyda theithio.  Ar draws Cymru, mae Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig bron i gan gwaith yn fwy tebygol o fyw mewn cartref symudol neu garafán o'u cymharu â'r boblogaeth nad ydynt yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig, fodd bynnag, nid yw hyn yn wir yng Ngheredigion.  Nid oes unrhyw Safleoedd Tramwy hysbys yng Ngheredigion er mwyn i'r gymuned Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig fyw.  Rydym yn gwybod nad yw'r grŵp poblogaeth hwn yn byw gyda phobl o wahanol ethnigrwydd fel arfer, felly byddent yn annhebygol o fyw ar safle carafannau preswyl cyffredin.[15]  Gallai hyn esbonio pam bod rhan fwyaf y grŵp poblogaeth hwn yn byw mewn adeiladau brics a morter yng Ngheredigion.  At hynny, gallai cyfran isel iawn y Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a'r boblogaeth Roma sy'n byw mewn carafán amlygu'r ffaith bod y grwpiau poblogaeth hyn yn absennol o ganlyniadau swyddogol y Cyfrifiad, gan eu bod yn symud o gwmpas, ac mae gwaith ymchwil yn cefnogi hyn.[16]

[14] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Math o Lety yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

[15] SYG (2022). Gypsies' and Travellers' lived experiences, culture and identities, England, and Wales: 2022.  Ar gael yn: Gypsies' and Travellers' lived experiences, culture and identities, England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

[16] Senedd y DU (2012).  What we know about inequalities facing Gypsy, Roma and Traveller Communities.  Ar gael yn: Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities - Women and Equalities Committee - House of Commons (parliament.uk)

## 3.6. Aelwydydd Gorlawn


Mae'r Cyfrifiad yn caniatáu i ni ystyried y sgoriau cyfanheddu fesul ystafelloedd gwely aelwydydd. Isod, rydym yn edrych ar orlenwi yn benodol (aelwydydd sydd â -1 ystafell wely neu lai). Mae pobl sy'n byw mewn aelwydydd gorlawn yn fwy agored i ganlyniadau negyddol. Mae astudiaethau yn awgrymu y gall perthnasoedd teuluol fod dan straen oherwydd gorlenwi, sy'n gallu arwain at iechyd meddwl gwael, straen a gorbryder. Os oes plant ar yr aelwyd, mae eu haddysg yn debygol o gael ei effeithio oherwydd y canlyniadau hyn.[17]

### Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig & Roma

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos i ni bod y boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a'r boblogaeth Roma yng Ngheredigion yn fwy tebygol o fod yn byw mewn aelwyd gorlawn (7.4% ac 19.2%) o'i chymharu â'r cyfartaledd yng Ngheredigion (1.4%).

Mae ymchwil yn awgrymu bod poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma yn fwy tebygol o fod yn byw ar aelwydydd gorlawn gan eu bod yn byw mewn carafannau neu gartrefi symudol, sy'n gallu bod yn fach ac yn cynnwys rhai ystafelloedd gwely yn unig. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ar gyfer y grwpiau hyn yng Ngheredigion gan nad oes unrhyw rai ohonynt yn byw mewn carafán neu gartref symudol. Gallai'r ffigurau hyn awgrymu bod diffyg tai priodol yng Ngheredigion ar gyfer y boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma a/neu nad yw'r poblogaethau hyn yn gallu fforddio tai priodol.

Ffigur 12: Poblogaeth Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig, Roma a Ceredigion sy'n byw mewn Aelwydydd Gorlawn (2021).




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)*[18]

[17] Shelter (2005). Full house? How overcrowded housing affects families. Ar gael yn: Full house2.indd (ctfassets.net)

[18] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Graddfa Deiliadaeth yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

## 3.7. Gweithgaredd Economaidd


### Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig & Roma

Mae Ffigwr 13 isod yn dangos gweithgarwch economaidd y poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma law yn llaw â ffigurau cyfartalog Ceredigion. Gwelir ychydig wahaniaeth rhwng y ddau grŵp a'r boblogaeth gyffredinol. Ceir nifer uwch o'r poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma sy'n economaidd anweithgar oherwydd salwch hirdymor, neu anabledd (7.3% a 12.0%) o'i chymharu â'r cyfartaledd yng Ngheredigion (4.4%).

Yn ogystal, mae canran llawer yn uwch o boblogaeth Ceredigion yn economaidd anweithgar oherwydd eu bod wedi ymddeol (27.7%), o'i chymharu â'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Ngheredigion (7.3%) a'r boblogaeth Roma (4.0%). Nid yw hyn yn peri syndod o ystyried strwythur oedran y boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma yng Ngheredigion, gan ein bod yn gwybod bod y grwpiau poblogaeth hyn yn llawer iau na phoblogaeth gyfartalog Ceredigion.

Un gwahaniaeth amlwg rhwng y boblogaeth Roma yw cyfran y rhai sy'n ddi-waith, gan bod cyfran uwch o'r boblogaeth Roma yn ddi-waith (16.0%) o'i chymharu â Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig (3.6%) a'r boblogaeth gyffredinol (3.0%).

Ffigur 13: Gweithgaredd Economaidd o'r boblogaeth Sipsi a Deithwyr Gwyddelig, Roma a Ceredigion (2021).




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)[19]*


[19] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Gweithgaredd Economaidd yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

## 3.8. Cymwysterau

Yn aml, mae'r poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma yn cael eu cysylltu ag addysg wael a diffyg cymwysterau. Ceir nifer o resymau y byddai modd eu priodoli i'r canlyniadau gwaeth hyn, gan gynnwys cyfraddau gadael yr ysgol uwchradd yn gynnar, diffyg amgylcheddau addysgu cynhwysol, bwlio, eithrio digidol, diffyg sgiliau llythrennedd rhieni a'r ffaith na allant helpu wrth ddysgu yn y cartref, a chymorth annigonol i deuluoedd sy'n teithio i fanteisio ar addysg a'i chynnal.[20] Gall y ffactorau hyn gael effaith ar fath a nifer y cymwysterau a fydd gan rywun.

### Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig & Roma

Ffigur 14: Cymwysterau o'r boblogaeth Sipsi a Deithwyr Gwyddelig, Roma a Ceredigion (2021).




*(Ffynhonnell: SYG (2022): Cyfrifiad 2021)[21]*

Mae Ffigwr 14 yn dangos canran y cymwysterau a sicrhawyd gan y poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma o'i chymharu â chyfartaledd Ceredigion. Mae mwy o'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a'r boblogaeth Roma heb unrhyw gymwysterau (22.2% a 30.8%) o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol yng Ngheredigion (14.7%). Gwahaniaeth arall rhwng y grwpiau ethnig hyn a'r cyfartaledd yng Ngheredigion yw'r rhai sydd wedi sicrhau cymhwyster lefel 3.[22] Dim ond 5.6% o'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a 0.0% o'r boblogaeth Roma sydd wedi cyflawni hyn, o'i chymharu â 21.2% o boblogaeth gyffredinol Ceredigion. Fodd bynnag, wrth gymharu'r mathau eraill o gymwysterau a sicrhawyd (lefel 1, lefel 2 a lefel 4) gyda phoblogaeth Ceredigion, mae'r canlyniadau yn debyg, yn enwedig ar gyfer y boblogaeth Roma.

[20] Friends, Families & Travellers (2023). Education inequalities facing Gypsies, Roma, and Travellers in England. Ar gael yn: https://www.gypsy-traveller.org/wp-content/uploads/2023/10/Education-inequalities-faced-by-Gypsies-Roma-and-Travellers-in-England-briefing.pdf

[21] SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Cymwysterau yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

[22] Mae cymwysterau Lefel 3 yn cynnwys 2 lefel A neu VCE neu fwy, 4 safon UG neu fwy, Tystysgrif Ysgol Uwch, Diploma Cynnydd neu Uwch, Dipoloma Uwch Bagloriaeth Cymru, CGC Lefel 3; GNVQ Uwch, Crefft Uwch City and Guilds, ONC, OND, BTEC Cenedlaethol, Dipoloma Uwch RSA.

# 4.0. Casgliad

Mae Cyfrifiad 2021 yn gwella ein dealltwriaeth o'r cymunedau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma yng Ngheredigion ac ar draws Cymru yn sylweddol. Mae'r data yn cynnig dirnadaeth o ddemograffeg y poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma, gan amlygu'r ffaith bod y rhan fwyaf yn y ddau grŵp poblogaeth dan 35 oed, gan adlewyrchu'r cyfraddau genedigaethau uchel a'r disgwyliad oes llai sy'n gysylltiedig â'r grwpiau poblogaeth hyn.

At hynny, mae gwybodaeth o Gyfrifiad 2021 yn awgrymu bod cyswllt rhwng y boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma, ac iechyd gwaeth a hunan-adroddir. Adroddodd y poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma am iechyd gwaeth o'i chymharu â chyfartaledd Ceredigion. Hefyd, mae'n fwy cyffredin i'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig i fod yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb o'i chymharu â chyfartaledd Ceredigion. Nid yw hyn yn wir am y boblogaeth Roma, lle y mae canran is o'r grŵp poblogaeth hwn yn anabl o'i gymharu â chyfartaledd Ceredigion.

Mae'r data hwn yn dweud wrthym bod y poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma yn llawer mwy tebygol o fod yn byw mewn aelwyd gorlawn, o'u cymharu â gweddill y boblogaeth yng Ngheredigion. Yn ogystal, nid oes unrhyw rai, neu fawr iawn o'r grwpiau poblogaeth hyn yn byw mewn carafannau, cartrefi symudol, neu strwythurau dros dro, felly ni allwn briodoli y gorlenwi i hyn. Mae'n debygol bod diffyg tai addas a fforddiadwy ar gael ar gyfer y grwpiau poblogaeth hyn.

Y gobaith yw y bydd y data a'r ddirnadaeth hon yn helpu i sicrhau bod yr awdurdod lleol, ynghyd â darparwyr gwasanaeth eraill ac elusennau, yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth a'r cymorth gorau ag y bo modd i'r cymunedau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig neu Roma lle y mae ei angen fwyaf.

## Rhestr Ffigurau:

Ffigur 1: Map o'r canran o bobl yn uniaethu fel Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig yn ôl Awdurdod Lleol.

Ffigur 2: Map o'r canran o bobl yn uniaethu fel Roma yn ôl Awdurdod Lleol.

Ffigur 3: Strwythur oedran a rhyw poblogaeth Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig Ceredigion (2021).

Ffigur 4: Strwythur oedran a rhyw poblogaeth Roma Ceredigion (2021).

Ffigur 5: Iechyd cyffredinol hunan-gofnodedig poblogaeth Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Roma a Cheredigion (2021).

Ffigur 6: Poblogaeth Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Roma a Ceredigion gydag anabledd (2021).

Ffigur 7: Canran y boblogaeth Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig yn ôl Daliadaeth (2021)

Ffigur 8: Canran o boblogaeth Ceredigion yn ôl Daliadaeth (2021).

Ffigur 9: Canran o boblogaeth Roma yn ôl Daliadaeth (2021).

Ffigur 10: Canran o boblogaeth Ceredigion yn ôl Daliadaeth (2021).

Ffigur 11: Canran o poblogaeth Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig a Roma yn ôl math o lety (2021).

Ffigur 12: Poblogaeth Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig, Roma a Ceredigion sy'n byw mewn Aelwydydd Gorlawn (2021).

F Ffigur 13: Gweithgaredd Economaidd o'r boblogaeth Sipsi a Deithwyr Gwyddelig, Roma a Ceredigion (2021).

Ffigur 14: Cymwysterau o'r boblogaeth Sipsi a Deithwyr Gwyddelig, Roma a Ceredigion (2021).

## Rhestr Cyfeirnodau:

Friends, Families & Travellers (2023). Education inequalities facing Gypsies, Roma, and Travellers in England. Ar gael yn: https://www.gypsy-traveller.org/wp-content/uploads/2023/10/Education-inequalities-faced-by-Gypsies-Roma-and-Travellers-in-England-briefing.pdf

Garrett, J and Mitchell, M. (2021). Locked out: A snapshot of access to General Practice for nomadic communities during the COVID-19 pandemic. Ar gael yn: Locked-out-A-snapshot-of-access-to-General-Practice-for-nomadic-communities-during-the-COVID-19-pandemic.pdf (gypsy-traveller.org)

https://www.ons.gov.uk/datasets/create

Llywodraeth Cymru (2015). Teithio at Iechyd Gwell. Ar gael trwy droi at: travelling-to-better-health.pdf (gov.wales).

Senedd y DU (2012). What we know about inequalities facing Gypsy, Roma and Traveller Communities. Ar gael yn: Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities - Women and Equalities Committee - House of Commons (parliament.uk)

Shelter (2005). Full house? How overcrowded housing affects families. Ar gael yn: Full house2.indd (ctfassets.net)

SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Anabledd yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Cymwysterau yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Daliadaeth yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn:
SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Graddfa Deiliadaeth yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create
SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Gweithgaredd Economaidd yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create
SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Iechyd Cyffredinol yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create
SYG (2022). Cyfrifiad 2021. Math o Lety yn ôl Grŵp Ethnig o Offeryn Data Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create
SYG (2022). Cyfrifiad 2021. RM032 – Grŵp Ethnig yn ôl rhyw yn ôl oed. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2132&geog=lacu2021
SYG (2022). Cyfrifiad 2021. TS021 – Grŵp Ethnig. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2041&geog=lacu2021
SYG (2022). Gypsies' and Travellers' lived experiences, culture and identities, England, and Wales: 2022. Ar gael yn: Gypsies' and Travellers' lived experiences, culture and identities, England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
Tŷ'r Cyffredin (2019). Sipsi a Teithwyr. Ar gael yn: Gypsies and Travellers - House of Commons Library (parliament.uk).